# Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd Nos Iau, 13 o Chwefror 2019 yn Canolfan y Fron**
**Minutes of the Finance Committee held at Canolfan y Fron, Thursday 13 February 2019 at 7.00pm**

**Yn bresennol / Present**
Cynghorwyr Hywel J Owen; Gwyn Owen Jones; Alun Wyn Jones ; Gerwyn Owen; David C Davies; Eddi Willcox a David Roberts, Rheolwr y Cyngor.

## 1 Croeso'r Cadeirydd - Chairmans Welcome

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. Gerwyn Owen, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Diolchodd i'r aelodau oedd yn bresennol. Aeth yn syth at y rhaglen.

## 2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan unrhyw alod o'r Pwyllgor oedd ddim yn bresennol

## 3 Datgan Buddiant Personol NeuFuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Cyng. Alun Wyn Jones – yn aelod o Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon ac yn aelod o Grwp Deffribiliwr Y Groeslon

Cyng.David C Davies – yn aelod o Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon ac yn aelod o Grwp Deffribiliwr Y Groeslon

Cyng. Hywel Owen – aelod o Grwp Deffribiliwr Y Groeslon ac ei gymer yn aelod o pwyllgor Sioe Arddio Y Groeslon

## 4 Rhoddion Ariannol Adran 137 ac eraill– Financial Contributions Section 137 & other

Dyrannwyd y grantiau ar y sail ganlynol –

Categori A - mudiadau oddi fewn y gymuned, ac felly o fudd uniongyrchol i drigolion y gymuned
Categori B - mudiadau sydd a bydd uniongyrchol i drigolion y gymuned
Categori C - mudiadau nad sydd a bydd uniongyrchol i drigolion y gymuned

Dosbarthwyd rhestr o'r ceisiadau i bob aelod gan y Rheolwr.

Adroddwyd ganddo fod 20 cais wedi dod i law a bod £5,800 wedi ei glustnodi yng nghyllideb 2018-19 ar gyfer Rhoddion.

Nodwyd fod pob cais yn disgyn o dan Adran 137 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol sef y grym i awdurdodi gwariant ar weithgareddau lle nad oes gan y Cyngor y pwerau penodol. Ar gyfer cais gan Eisteddfod defnyddir grym Adran145 a chais gan Glwb pêl droed defnyddir grym Adran 19.
Sylwadau

**Ymgyrch Diffribiliwr Y Groeslon** – cefnogi gan fod yna ymgyrch i gael pedwar peiriant yn y pentref. £250
**Merched y Wawr , Y Groeslon** - cefnogi, yn cefnogi'r Neuadd a gweithgareddau'r pentref £100
**Cymdeithas Hanes Uwchgwyrfai** - symud i gategori "C". Dim awydd cyfrannu gan ei fod tu allan i'r plwyf. Gwrthod
**Clwb Pêl-droed Llandwrog** - cefnogi. Yn cydymffurfio ac adran 19 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol. £100
**Cylch Meithrin Carmel** – cefnogi. Cais am arian at offer. £400
**Eisteddfod Gadeiriol Y Groeslon**. Cefnogi. Yn cydymffurfio ac Adran 145 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol. £100
**Grŵp Datblygu Y Fron**. Cefnogi. £100
**Pwyllgor Neuadd Pentref Carmel** - cefnogi. Cais am offer a thacluso.£1,050
**Pwyllgor Neuadd Pentref Y Groeslon** - cefnogi. Cais i wneud gwelliannau.£1,050
**Pwyllgor Pentref Carmel** - cefnogi . Cais i ariannu yswiriant atebolrwydd. £100
**Sioe Arddio Y Groeslon**. Cefnogi. Cais I brynu byrddau.£200
Ffrindiau Ysgol Llandwrog. Cefnogi. Gwaith tiroedd yr ysgol. £100
**Clwb Gwawr Genod y Llan (Llandwrog)** - gwrthod - aelodau o'r farn nad yw'r gweithgareddau yn cyd-fynd ac amcanion - methu cyfiawnhau'r gwariant i'r trethdalwyr - nid pwrpas y rhoddion yw ariannu bywyd cymdeithasol
**Pwyllgor Pentref Llandwrog** Cefnogi. Gwaith tiroedd yr ysgol. £100
**Canolfan Bro Llanwnda** - gwrthod. Cydnabod fod defnyddwyr o'r gymuned Llandwrog yn defnyddio'r Ganolfan ond rhaid gwarchod Neuaddau ein hunain yn gyntaf**.**
**Cylch Meithrin Llanwnda** Dinas - cefnogi . 12 o blant Llandwrog a Dinas Dinlle yn mynychu'r cylch. £200
**Ambiwlans Awyr Cymru**. Cefnogi. Cyfrannu £500.
**Papur Bro Lleu.** Cefnogi. Cyfranu £300
**Mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri** - cefnogi. Wedi colli grantiau gan Gyngor Gwynedd. Aelodau yn awyddus fod y Mudiad yn cael ei gefnogi oherwydd y gwaith ardderchog meant yn ei wneud £100
**Sioe Arddio Dyffryn Nantlle** – gwrthod, tu allan i'r plwyf

**Cyfanswm y rhoddion £4,750**

| Mudiad/Organisation | Cyfraniad/Contribution | Grym y Ddeddf / Power to Act |
|---|---|---|
| Ymgyrch Dibriffiliwr Pentref Y Groeslon | £250 | Adran 137/ Section 137 |
| Cangen Merched Y Wawr, Y Groeslon | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Cymdeithas Hanes Uwchgwyrfai | | |
| Clwb Peldroed Llandwrog | £100 | Adran 19/ Section 19 |
| Cylch Meithrin Carmel | £400 | Adran 137/ Section 137 |
| Eisteddfod Gadeiriol Y Groeslon | £100 | Adran 145/ Section 145 |
| Grŵp Datblygu'r Fron | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Neuadd Pentref Carmel | £1,050 | Adran 137/ Section 137 |
| Neuadd Pentref Y Groeslon | £1,050 | Adran 137/ Section 137 |
| Pwyllgor Pentref Carmel | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Sioe Arddio Y Groeslon | £200 | Adran 137/ Section 137 |
| Ffrindiau Ysgol Llandwrog | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Clwb Gwawr Genod Llan (Llandwrog) | | |
| Pwyllgor Pentref Llandwrog | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Canolfan Bro Llanwnda | | |
| Cylch Meithrin Llanwnda a Dinas | £200 | Adran 137/ Section 137 |
| Ambiwlans Awyr Cymru | £500 | Adran 137/ Section 137 |
| Papur Bro Lleu | £300 | Adran 137/ Section 137 |
| Cyfeillion Ffermwyr Ifanc | £100 | Adran 137/ Section 137 |
| Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle | | |
| Cyfanswm / Total | **£4,750** | |

***Argymhelliad i'r Cyngor***

***i) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhoddion uchod gyda chyfanswm o £4,750***
***ii) Fod y Cyngor yn derbyn y rhesymau a nodwyd uchod ar gyfer y ceisiadau a wrthodwyd***
***iii) Fod y Cyngor yn trosglwyddo'r tanwariant o £1,050 i'r fantolen ar gyfer gwarant ar ddatblygiadau yn 2019-20***

***Recommendation to the Council***

***i) That the Council approves the above contributions totalling £4,750***
***ii) That the Council accepts the reasons for those applications which were refused***
***iii) That the Council transfers the underspend of £1,050 to the reserves which can be made available in 2019-20 for any development work.***

## 5 Asesiad Risg Ariannol

Adroddwyd gan y Rheolwr nad oes gan y Cyngor trefniadau o Asesu Risgiau Ariannol.
Dosbarthwyd gopi o asesiad risg roedd y Rheolwr wedi ei baratoi.
Barn yr aelodau oedd fod angen ei graffu ymhellach cyn ei gyflwyno I'r Cyngor ym mis Mawrth I'w fabwysiadu ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20
AWJ – gwnued y sylw fod angen trefniant blynyddol i ddiweddaru y ddogfen.Awgrymwyd mis Mawrth erbyn y flwyddyn Ariannol I dilyn.

***Argymhellion i'r Cyngor***

***i) Fod y Cyngor yn ymddiried yn y Pwyllgor Cyllid i graffu yr Asesiad Risg Ariannol fel y'i cyflwynwyd gan y Rheolwr ac ei gyflwyno i'r Cyngor llawn mis mawrth 2019***
***ii) Fod y Cyngor yn mabwysiadu trefniant i ddiweddaru y ddogfen yn flynyddol***

. ***Recommentation to the Council***

***i) For the Council to entrust the Finance Committee to scrutinise the Financil Risk Assessment as presented by the Manager and to present it to the Council in m=its March meeting.***
***ii) For the Council to entrust the Finance Committee to make arrangements to ensure that the Risk Assessment is reviewed annually***

**Daeth y cyfarfod i ben am 7:50 yr hwyr / The meeting came to a close at 7:50pm**

| **Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -** | |
|---|---|
| **Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor** | |
| **Dyddiad -** | |